Atodiad 3 – Cofnodion Drafft Gweithgor Polisi Cynllunio (23/10/26)

Eitem 5

5. PRIF FATERION, GWELEDIGAETH, AMCANION STRATEGOL A'R OPSIYNNAU TWF A DOSBARTHIAD GOFODOL

Cyflwynodd swyddogion y Gwasanaeth Polisi Cynllunio Eitem 5 i'r Gweithgor. Ar ddechrau'r drafodaeth, atgoffodd y Cadeirydd yr Aelodau fod y cyfarfod yn canolbwyntio ar y materion a gyflwynwyd gerbron y Gweithgor ar y diwrnod hwnnw, yn hytrach na thrafodaethau blaenorol.

Wrth gyflwyno'r eitem, cyfeiriodd y swyddog at statws presennol y ddogfen a'r cam yn y broses o baratoi'r Cynllun Datblygu Lleol newydd. Eglurwyd bod y gwaith a gyflwynwyd yn canolbwyntio ar y prif faterion, yr amcanion strategol a'r opsiynau twf posibl. Nodwyd mai diben y cyflwyniad oedd rhoi cyfle i'r Aelodau drafod a rhoi sylwadau ar yr opsiynau sydd wedi'u datblygu hyd yma er mwyn llywio'r gwaith pellach.

Pwysleisiodd y swyddogion nad oedd unrhyw benderfyniadau wedi'u gwneud ynghylch cyfeiriad y Cynllun Datblygu Lleol ar hyn o bryd. Eglurwyd bod yr opsiynau a gyflwynwyd wedi'u nodi fel yr opsiynau mwyaf priodol a realistig ar sail y dystiolaeth sydd ar gael ar hyn o bryd, ac mai pwrpas y broses oedd casglu barn cyn symud ymlaen i gamau nesaf y gwaith.

Materion a godwyd

1. Gofynnodd Aelod am eglurhad ynghylch ystyr y golofn sy'n cyfeirio at swyddi cyflogaeth a sut y dylid dehongli'r wybodaeth a gyflwynir ynddi.

2. Gofynnodd Aelod am esboniad o'r gwahaniaeth rhwng y ffigurau a gyflwynir fel prif ffigurau a'r rhai a nodir mewn cromfachau. Holwyd hefyd pam nad yw'r gwahaniaeth rhwng y ffigurau hyn yn gyson ar draws yr amrywiol opsiynau.

3. Nododd Aelod nad oedd yn gwbl glir sut yr oedd y ffigurau cyflogaeth wedi'u llunio na sut yr oeddent yn ymwneud â ffactorau megis datblygiadau yn Wylfa, gweithio o gartref a newidiadau eraill yn y farchnad lafur. Holwyd a oedd ystyriaeth wedi'i rhoi i'r newid cyflym mewn patrymau gwaith, gan gynnwys effaith deallusrwydd artiffisial ar gyfleoedd cyflogaeth yn y dyfodol.

4. Gofynnodd Aelod a oedd y ffigurau a nodir mewn cromfachau yn cyfeirio at ddatblygiadau sydd eisoes wedi'u cwblhau neu sydd eisoes wedi digwydd, ac am eglurhad ynghylch pam nad yw'r ffigurau'n ymddangos yn gyson rhwng yr opsiynau amrywiol.

Drafft

5. Gofynnodd Aelod am eglurhad ynghylch pa opsiwn a ystyrir yn fwyaf realistig mewn perthynas â rhagolygon cyflogaeth a thwf economaidd. Awgrymwyd y byddai'n fuddiol cael mwy o wybodaeth yn egluro pam mae rhai opsiynau'n cael eu hystyried yn llai derbyniol nag eraill. Nodwyd hefyd, er bod rhagolygon cenedlaethol yn ffynhonnell wybodaeth werthfawr, bod angen adlewyrchu amgylchiadau a gofynion lleol Gwynedd a chymunedau gwledig yn fwy penodol.

6. Gofynnodd Aelod am eglurhad ynghylch pam y cyfeiriwyd at rai datblygiadau ym Môn fel datblygiadau hapfasnachol.

7. Gan gyfeirio at sylwadau blaenorol mewn perthynas â datblygiadau niwclear, nododd Aelod fod y drafodaeth yn ymwneud ag Adweithydd Modiwlaidd Bach yn hytrach na datblygiad Wylfa B. Gofynnwyd a oedd hyn wedi'i adlewyrchu yn yr asesiadau, gan y gallai nifer y swyddi a grëir fod yn sylweddol wahanol, a gofynnwyd hefyd a oedd ystyriaeth wedi'i rhoi i oblygiadau seilwaith, gan gynnwys trafnidiaeth a chysylltiadau dros y Fenai.

8. Cododd Aelod bwynt ynghylch y Cynllun Datblygu Lleol blaenorol, gan nodi bod rhai rhagolygon twf a ragwelwyd bryd hynny heb eu gwireddu. Holwyd pam fod rhagolygon cyfredol yn cynnwys prosiectau nad ydynt eto wedi derbyn caniatâd, a phwysleisiwyd yr angen i fod yn ofalus wrth seilio'r cynllun ar ddatblygiadau ansicr.

9. Mynegodd Aelod y farn na ddylid diystyru'r posibilrwydd o ddatblygiad yn Wylfa gan fod amgylchiadau'n gallu newid dros amser. Awgrymwyd y dylid cadw'r opsiwn hwnnw dan ystyriaeth, a nodwyd bod nifer o Aelodau eraill yn gefnogol i'r safbwynt hwn.

10. Gofynnodd Aelod am eglurhad ynghylch Opsiwn 4, gan nodi ei fod yn cyfeirio at Wynedd gyfan, tra bo'r Cynllun Datblygu Lleol yn ymdrin â rhan benodol o'r sir yn unig.

11. Gofynnodd Aelod am eglurhad ynghylch y rhaniad daearyddol rhwng ardaloedd Bangor a Caernarfon.

12. Nododd Aelod nad oedd unrhyw un o'r opsiynau'n ymddangos i roi sylw penodol i rôl Bangor fel dinas. Gofynnwyd a ddylid ystyried opsiwn sy'n canolbwyntio'n benodol ar ganol dinas Bangor. Cyfeiriodd yr Aelod hefyd at y diffyg cydweddiad rhwng rhai rhagolygon blaenorol a'r canlyniadau a welwyd yn ymarferol, gan nodi bod tai wedi'u darparu ar sail disgwyliadau cyflogaeth nad ydynt wedi gwireddu.

13. Holodd Aelod ynghylch y berthynas rhwng rhagolygon twf y Cynllun Datblygu Lleol a chynlluniau twf Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri. Gofynnwyd a oedd trafodaethau a chydweithredu ffurfiol yn digwydd er mwyn sicrhau bod gweledigaethau'r ddau gorff yn cyd-fynd.

14. Gofynnodd Aelod am eglurhad ynghylch diben craidd y Cynllun Datblygu Lleol, sef a yw'n bennaf yn ymateb i dueddiadau presennol neu'n ceisio dylanwadu ar batrymau

Draft

twf yn y dyfodol. Nodwyd bod poblogaeth Gwynedd yn wynebu heriau megis cyfraddau geni is, allfudo pobl ifanc a phoblogaeth sy'n heneiddio. Holwyd o ble y rhagwelir y daw twf poblogaeth yn y dyfodol, ac a yw'n briodol darparu tai mewn rhai ardaloedd ar sail rhagdybiaethau ynghylch cyfleoedd cyflogaeth nad ydynt yn sicr. Mynegodd yr Aelod ffafriaeth tuag at Opsiwn 4 ac awgrymodd y dylid ystyried anghenion pob ardal yn unigol.

15. Gan gyfeirio at sylwadau blaenorol ynghylch poblogaeth a thwf, gofynnodd Aelod drwy ba lens y dylid asesu'r opsiynau. Awgrymwyd y byddai'n fuddiol derbyn tystiolaeth bellach ynghylch pa opsiynau fyddai fwyaf cefnogol i'r Gymraeg. Holwyd pa gyfuniad o opsiynau twf fyddai'n cynnig y canlyniad gorau i gynaliadwyedd cymunedau Cymraeg eu hiaith, a chynigiwyd y dylid cynnal gwaith pellach i asesu effaith yr opsiynau mewn perthynas â'r Gymraeg.

16. Wrth ddilyn sylwadau blaenorol a wnaed gan Aelodau eraill, nododd Aelod gefnogaeth i ddatblygu cyfleoedd economaidd ond mynegodd bryder bod llai o bwyslais yn cael ei roi ar ddatblygiadau a chyfleoedd sy'n bodoli eisoes o fewn Parc Cenedlaethol Eryri o gymharu â datblygiadau mwy ansicr. Holwyd a oedd angen rhoi mwy o ystyriaeth i'r potensial am dwf ym Meirionnydd a goblygiadau hyn i'r ardal.

17. Gofynnodd Aelod a oedd y rhagolygon tai, yn enwedig yn ardal Arfon, yn cynnwys ystyriaeth lawn o fewnfudo ac allfudo poblogaeth. Pwysleisiodd bwysigrwydd deall patrymau mudo pobl ifanc a gofynnodd hefyd pryd y byddai mapiau ar gael i ddangos lleoliadau'r datblygiadau dan ystyriaeth.

18. Holodd Aelod ynghylch maint y cydweithio rhwng y Cyngor ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri wrth ddatblygu'r opsiynau twf. Nodwyd bod gwahaniaethau sylweddol rhwng rhai o'r rhagolygon, a gofynnwyd pam nad oedd y gwaith yn ymddangos yn fwy cyd gysylltiedig. Awgrymwyd hefyd y dylid ystyried opsiwn twf lleol ychwanegol yn seiliedig ar ragolygon demograffig is.

19. Cytunodd Aelod â'r angen i dderbyn adroddiadau a thystiolaeth ar faterion ieithyddol pan fo hynny'n briodol. Gofynnwyd am eglurhad ynghylch y broses a ddefnyddiwyd i hidlo'r rhestr wreiddiol o un ar ddeg opsiwn i lawr i bum opsiwn. Holwyd hefyd i ba raddau y bydd sylwadau'r cyhoedd yn dylanwadu ar y broses benderfynu derfynol a faint o bwysau a roddir ar y dystiolaeth a gyflwynir.

20. Gan gyfeirio at baragraff 6.0.5 o'r adroddiad, gofynnodd Aelod am eglurhad ynghylch y cylch gorchwyl a roddwyd i'r ymgynghorwyr a gomisiynwyd i gynnal y gwaith. Holwyd pa ffactorau ac amcanion a osodwyd ganddynt wrth gynnal yr ymchwil a'r asesiadau perthnasol.

21. Gofynnodd Aelod am eglurhad ynghylch y defnydd o dueddiadau pum mlynedd yn hytrach na thueddiadau dros gyfnod hirach o bymtheg mlynedd. Nodwyd bod digwyddiadau megis Brexit a'r pandemig COVID-19 wedi cael effaith sylweddol ar ddemograffeg a phatrymau poblogaeth, a holwyd i ba raddau y mae'r gwaith modelu

wedi cymryd hyn i ystyriaeth. Gofynnwyd hefyd a oedd mentrau lleol a datblygiadau sgiliau ar y gweill wedi'u cynnwys yn yr asesiad.

22. Gofynnodd Aelod am eglurhad ynghylch amseriad ac arwyddocâd yr Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg. Mynegwyd y farn y dylai'r gwaith hwn gael ei gomisiynu cyn gwneud penderfyniadau strategol ynghylch yr opsiynau twf. Nododd yr Aelod nad oedd yn glir pam mai'r pum opsiwn presennol a ddewiswyd o blith yr holl opsiynau gwreiddiol, a phwysleisiodd yr angen am gyfiawnhad mwy tryloyw dros y dewis hwnnw. Cefnogwyd y safbwynt hwn gan Aelod arall.

23. Eiliodd Aelod y pwynt blaenorol gan nodi pryder nad oedd geiriad a diffiniadau rhai o'r cwestiynau arfaethedig ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus yn rhoi digon o eglurder nac yn darparu sail gadarn ar gyfer casglu barn y cyhoedd.

Ymatebion

1. Eglurodd y Swyddog fod y golofn yn ymwneud â nifer y swyddi cyflogaeth y byddai eu hangen i gefnogi'r nifer o unedau tai a ragwelir. Nodwyd bod pob opsiwn yn seiliedig ar yr un angen tai, ond yn defnyddio gwahanol ragdybiaethau o ran twf a chyflogaeth.

2. Esboniodd y Swyddog fod y gwahaniaeth rhwng y ffigurau yn deillio o'r modd y cânt eu cyfrifo dros gyfnod y cynllun. Po uchaf yw'r ffigur cyffredinol, y mwyaf tebygol yw y bydd bwlch rhwng y prif ffigur a'r ffigur mewn cromfachau. Wrth ailwirio'r data, cadarnhaodd y Swyddog fod gwall wedi'i ganfod yn y ffigurau a gyflwynwyd, a nodwyd y byddai'r wybodaeth yn cael ei chywiro.

3. Eglurodd y Swyddog fod Opsiwn 5 yn rhoi mwy o bwyslais ar ragolygon cyflogaeth ac yn cynnwys ystyriaeth o ddatblygiadau posibl yn Wylfa. Dyna'r rheswm dros y gwahaniaeth yn y ffigurau rhwng yr opsiynau. Pwysleisiwyd nad yw hyn yn golygu y rhagdybir y bydd datblygiad yn Wylfa yn digwydd, ond ei fod yn un o'r ffactorau a ystyrir wrth baratoi'r opsiwn hwnnw. Nodwyd hefyd nad yw pob opsiwn yn cynnwys yr un rhagdybiaethau ynghylch Wylfa.

4. Eglurodd y Swyddog fod y ffigurau mewn cromfachau yn is gan eu bod yn adlewyrchu i ffigwr heb y tai dydd eisoes wedi ei datblygu a y tai sydd yn y bank tir.

5. Nododd y Swyddog fod angen ystyried pob opsiwn mewn modd realistig ac agored. Pwysleisiwyd y bydd pob opsiwn yn destun ymgynghori ac yn caniatáu cyfle i randdeiliaid a'r cyhoedd gyflwyno sylwadau. Esboniwyd bod yr opsiynau wedi'u seilio ar ystod o ragdybiaethau twf isel, canolig ac uchel, tra hefyd yn ystyried ffactorau megis cyflogaeth, datblygiadau posibl yn Wylfa a'r angen am dai.

6. Nododd y Swyddog na ellid anwybyddu datblygiadau posibl ym Môn. Derbyniwyd efallai nad oedd y term "hapfasnachol" yn gwbl briodol gan nad oes caniatâd wedi'i roi hyd yma, ond pwysleisiwyd ei bod yn debygol y bydd rhyw ffurf o ddatblygiad yn

Draft

digwydd. O ganlyniad, ystyrid ei bod yn briodol cynnwys yr opsiwn perthnasol fel rhan o'r ymgynghoriad. Cadarnhawyd nad oedd ffafriaeth wedi'i rhoi i unrhyw opsiwn ar hyn o bryd.

7. Nododd y Swyddog fod y pwynt a godwyd wedi'i gydnabod.

8. Pwysleisiodd y Swyddog nad oedd unrhyw benderfyniad wedi'i wneud ynghylch mabwysiadu unrhyw un o'r opsiynau. Eglurwyd mai trafodaeth gychwynnol oedd hon er mwyn ystyried ystod o opsiynau posibl, ac nad oedd yr opsiynau eu hunain yn cynrychioli strategaeth derfynol y Cynllun Datblygu Lleol.

9. Nododd y Swyddog fod y sylw wedi'i gydnabod.

10. Eglurodd y Swyddog fod ardaloedd lleol yn parhau i gael eu hadnabod o fewn y gwaith, gan gynnwys rhai sy'n ymestyn i mewn i Barc Cenedlaethol Eryri. Fodd bynnag, dim ond yr ardaloedd hynny sy'n disgyn o fewn ardal gyfrifoldeb Gwynedd sy'n cael eu hadrodd fel rhan o'r broses hon.

11. Nododd y Swyddog nad oedd yn hawdd diffinio'r gwahaniaethau'n fanwl rhwng yr ardaloedd a gyfeiriwyd at. Pwysleisiwyd, fodd bynnag, fod angen sicrhau bod unrhyw ddatblygiadau yn rhai cynaliadwy.

12. Nododd y Swyddog fod y pwynt a godwyd wedi'i gydnabod.

13. Cadarnhaodd y Swyddog nad oedd rôl a gwaith Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri yn cael eu diystyru. Eglurwyd bod trafodaethau rheolaidd yn cael eu cynnal ar lefel is-ranbarthol er mwyn trafod materion o ddiddordeb cyffredin a sicrhau cymaint o gydweithio â phosibl.

14. Nododd y Swyddog fod y Cynllun Datblygu Lleol yn darparu'r dull mwyaf priodol o ymateb i'r materion a godwyd. Cydnabuwyd bod y pwyntiau a gyflwynwyd yn rhai teg ac yn berthnasol i'r broses.

15. Cadarnhaodd y Swyddog y bydd pob un o'r opsiynau'n cael eu hasesu mewn perthynas â'r Gymraeg, ac y bydd y gwaith ychwanegol a awgrymwyd yn cael ei gyflawni fel rhan o'r broses, ond nid ar y cam yma. Pwysleisiwyd bydd ystyriaeth o'r Gymraeg a'r holl ystyriaethau a thystiolaeth arall yn cael ei wneud yn y cam nesaf fel rhan o'r broses o ddatblygu'r hoff strategaeth. Nodwyd hefyd nad pwrpas y cam oedd dod i gasgliad ynghylch pa opsiwn oedd i'w ffafrio. Esboniwyd mai diben y cam presennol oedd casglu gwybodaeth a thystiolaeth i lywio'r camau nesaf.

16. Rhannodd y Swyddog ei farn ynghylch pwysigrwydd gweithio'n agos gydag Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri er mwyn sicrhau dealltwriaeth glir o gynlluniau'r ddau sefydliad a'r modd y gallant gefnogi ei gilydd i gyflawni amcanion strategol.

17. Nododd y Swyddog y byddai cyfleoedd pellach i'r gweithgor gyfrannu sylwadau a mewnbwn wrth i'r gwaith symud ymlaen tuag at nodi strategaeth ffafredig.

18. Esboniodd y Swyddog y bydd adroddiad pellach yn cael ei gyflwyno i'r gweithgor wedi'r cyfnod ymgynghori, ynghyd â phapurau cefndir perthnasol. Byddai hynny'n

Drafft

rhoi cyfle i'r Aelodau ystyried y dystiolaeth a chyflwyno sylwadau ar y gwaith a gyflwynir gan yr Gwasanaeth Polisi Cynllunio. Cydnabuwyd hefyd y sylw ynghylch mabwysiadu opsiwn twf a fyddai'n defnyddio rhagolygon Llywodraeth Cymru ynghyd ag addasiadau datblygiad lleol, yn debyg i'r dull a ddefnyddir mewn rhai awdurdodau eraill.

19. Nododd y Swyddog y gellid ystyried cynnwys rhagor o wybodaeth ac eglurhad yn y gwaith yn y dyfodol. Pwysleisiwyd fod angen cynllunio ar gyfer rhyw lefel o dwf, ac mai'r pum opsiwn a gyflwynwyd oedd y rhai a ystyrid yn fwyaf realistig ar sail y dystiolaeth a'r rhagolygon sydd ar gael. Esboniwyd mai dyna'r rheswm dros gynnwys opsiynau twf isel, canolig ac uchel er mwyn sicrhau ystod eang o ddewis a thrafodaeth.

20. Cadarnhaodd y Swyddog fod yr ymchwil a'r gwaith technegol angenrheidiol wedi'u comisiynu er mwyn cefnogi'r broses o baratoi'r Cynllun Datblygu Lleol. Awgrymwyd, fodd bynnag, y byddai'r materion penodol a godwyd yn fwy perthnasol i gamau diweddarach y broses.

21. Eglurodd y Swyddog fod y rhagolygon yn ystyried y nifer o bobl sydd mewn cyflogaeth neu'n chwilio am waith, ynghyd â'r rhai sy'n teithio i mewn ac allan o'r sir at ddibenion cyflogaeth. Nodwyd hefyd fod mentrau a datblygiadau lleol sy'n gallu dylanwadu ar y farchnad lafur yn cael eu hystyried fel rhan o'r gwaith modelu. Mewn perthynas â'r cyfnod amser a ddefnyddiwyd, pwysleisiwyd bod amgylchiadau wedi newid yn sylweddol yn ystod y blynyddoedd diwethaf, ac felly ystyrid bod defnyddio cyfnod byrrach yn darparu darlun mwy realistig o'r sefyllfa bresennol.

22. Nododd y Swyddog fod y pwynt a godwyd wedi'i gydnabod.

23. Eglurodd y Swyddog na fyddai'n ymarferol cynnwys cwestiynau a allai gael eu dehongli fel rhai sy'n arwain barn. Pwysleisiwyd nad oedd unrhyw fwriad i ddylanwadu ar ymatebion y cyhoedd, ac mai diben yr ymgynghoriad oedd casglu barn wrthrychol a diduedd.

Draft